Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanddarog
# Llanddarog
# Caerfyrddin
# SA32 8BJ

## Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Llanddarog ym mhentref Llanddarog yn Sir Gaerfyrddin. Ysgol gyfrwng Cymraeg o dan ofalaeth yr Eglwys yng Nghymru ydyw. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas. Mae dros 45% o'r disgyblion yn dod o'r tu allan i ddalgylch arferol yr ysgol. Disgrifia'r ysgol yr ardal y daw'r plant ohoni fel un sydd, ar y cyfan, yn weddol ffyniannus.

Mae 81 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys plant meithrin amser llawn. Mae'r niferoedd hyn wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Daw 70% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle siaredir y Gymraeg yn y cartref. Mae 4% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae 3% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae 21% o'r disgyblion yn derbyn cymorth ar gyfer anghenion addysg ychwanegol. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Yn dilyn tymor fel pennaeth dros dro, dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn barhaol ym mis Medi 2012.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Llanddarog yn 2012-2013 yw £3,294. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Llanddarog yn safle 92 allan o'r 108 ysgol gynradd yn sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- disgyblion ar draws yr ysgol yn cyfathrebu'n hyderus ac yn llwyddiannus yn y Gymraeg;
- lefelau presenoldeb y disgyblion yn uchel, yn gyson ymhlith y 25% uchaf o gymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg;
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion a'u datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol; a bod
- yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu hysgogi i ddysgu.

Fodd bynnag:

- nid oes digon o gynnydd ym medrau ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion ar frig yr ysgol;
- nid yw'r tasgau bob amser yn cynnig yr her briodol i ddisgyblion yn enwedig disgyblion o allu uwch yng nghyfnod allweddol 2;
- nid yw'r cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 2 yn talu digon o sylw i ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm; ac
- nid oes cysondeb o ran y marcio a'r hyn sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth wedi llwyddo i greu gweledigaeth glir i staff, disgyblion llywodraethwyr a rhieni;
- pob aelod o'r staff yn deall yn dda eu cyfrifoldebau mewn perthynas uniongyrchol â chynlluniau strategol yr ysgol;
- cynllun gwella'r ysgol yn nodi'n glir y blaenoriaethau ar gyfer gwella; a
- bod y ddogfen hunanarfarnu'n drylwyr ac yn rhoi darlun clir o fywyd yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifenedig estynedig, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau gwelliant pellach yn y niferoedd sy'n cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod medrau rhifedd yn cael eu cynllunio'n fwriadus ar draws y cwricwlwm, a bod y cynlluniau yn cael eu gweithredu'n gyson yng nghyfnod allweddol 2

A4 Gwella trefniadau asesu gan wneud gwell defnydd o asesiadau er mwyn ymateb i anghenion pob disgybl

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr ymhellach i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad

A6 Mynd i'r afael â'r diffygion yn yr adeilad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mewn gwersi, mae rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Llanddarog yn gwrando'n astud, ac yn cyfrannu'n frwdfrydig yng ngweithgareddau'r dosbarth. Maent yn ddysgwyr hyderus, ac yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y dylent, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ac yn llwyddiannus yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa briodol i'w hoed a'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus mewn amryw o sefyllfaoedd gan ddangos gafael dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar Gymraeg. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn hyderus wrth sgwrsio yn y ddwy iaith, a gall rhan fwyaf ohonynt sgwrsio'n ddeallus o fewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen llyfrau'n rhwydd a chyda mynegiant gan ddefnyddio ystod o strategaethau darllen yn effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, gallant drafod cynnwys yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfr. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu hysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall rhan fwyaf ysgrifennu dilyniant o frawddegau gan ddangos gafael briodol o atalnodi sylfaenol. Mae'r goreuon yn ysgrifennu'n ddychmygus ac yn annibynnol gan ddefnyddio geirfa fwy estynedig i greu effeithiau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws y cyfnod allweddol yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn llwyddiannus yn y ddwy iaith. Mae eu dealltwriaeth o ddarllen yn dda wrth iddynt gaffael ar wybodaeth benodol o destun. Mae'r goreuon yn trafod ystod o ddeunydd darllen yn aeddfed gan fynegi barn a hoffter o awduron.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o atalnodi a pharagraffu a hynny gan ddilyn nodweddion y ffurf yn briodol. Er hynny, nid oes digon o gynnydd yng ngwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion ar frig yr ysgol o ran ystod ac ansawdd y gwaith gorffenedig. Nid ydynt yn ysgrifennu'n ddigon estynedig ar draws ystod o bynciau yn y ddwy iaith.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r medrau hyn wedi datblygu'n llawn ar draws ystod o bynciau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ymhob maes dysgu yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru ac mae'n gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Yn gyffredinol, yr un yw'r darlun ar y deilliant uwch.
Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw perfformiad yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf yn y pynciau craidd mewn cyfuniad (Cymraeg, neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) nac yn y pynciau unigol yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu na Chymru. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel uwch (lefel 5 neu uwch) wedi amrywio. Serch hynny, yn gyffredinol, mae'r perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf neu'r 50% isaf dros gyfnod o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim.

Yn gyffredinol, mae safonau'r gwaith cyfredol yn fwy cadarnhaol na'r hyn y mae'r data dros gyfnod yn ei ddangos.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae mwynhad y disgyblion a'u rhan weithredol ym mywyd yr ysgol yn nodweddion cryf. Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus ynghylch at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni.

Mae lefelau presenoldeb y disgyblion yn uchel, yn gyson ymhlith y 25% uchaf o gymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae parch a gofal gan ran fwyaf y disgyblion tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Maent yn ymateb yn foesgar ac yn aeddfed, ac yn cyfrannu'n dda yn y gwersi.

Mae'r cyngor ysgol ac eco gyngor yn frwdfrydig ac yn cymryd rhan weithredol wrth wneud penderfyniadau, megis sefydlu mainc cyfeillgarwch ar yr iard. Dangosant ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a byw yn iach. Maent yn ymwybodol o'r angen i fwyta'n iach trwy weithgareddau megis brwsio dannedd, cadw'n heini a'r siop ffrwythau ddyddiol.

Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol, eu cyfranogiad yn y gymuned, a'r profiadau allgyrsiol, mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn mynd ati'n gynyddol i gymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Nid yw hyn wedi datblygu'n llawn ar draws cyfnod allweddol 2.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae holl athrawon yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu hysgogi i ddysgu. Mae nifer o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol yn atgyfnerthu a chyfoethogi eu profiadau'n llwyddiannus. Er hyn, nid yw'r tasgau bob amser yn cynnig yr her briodol i'r ychydig o ddisgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2.

Cydweithia'r athrawon a chymorthyddion yn llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen, ac mae'r profiadau cyfoethog ac ysgogol yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion. Caiff y gwersi unigol eu cynllunio'n effeithiol, gyda chyfeiriadau priodol at

y medrau lle bo'n berthnasol. Mae cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 2 yn gynhwysfawr, ac yn nodi'r medrau'n glir. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn talu digon o sylw i ddatblygu medrau rhifedd ar draws ystod o bynciau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig wedi ei gwreiddio'n ddwfn ar draws yr ysgol ac yn galluogi'r dysgwyr i wneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth ohoni. Caiff y disgyblion lu o gyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth leol a chenedlaethol trwy waith thema ac mewn agweddau o gelf.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei datblygu'n llawn ar draws y cwricwlwm. Mae gan y cyngor eco brwdfrydig ddealltwriaeth drylwyr o faterion amgylcheddol ac mae'n gyfrifol am gynnal prynhawn coffi Masnach Deg yn flynyddol sy'n agored i'r gymuned leol.

**Addysgu: Digonol**

Mae safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda. Mae'r athrawon i gyd yn cynnig modelau iaith da ac yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn llwyddiannus.

Mewn llawer o'r gwersi lle mae'r arferion gorau, mae nod y wers yn eglur a'r disgyblion yn cymryd rhan weithredol wrth osod eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Ceir holi treiddgar ac ymyrraeth briodol sydd yn ysgogi a herio'r disgyblion i gyflawni'n dda. Mewn ychydig o'r gwersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r tasgau'n herio digon ar y disgyblion o allu uwch. Nid yw'r dulliau addysgu yng nghyfnod allweddol 2 bob tro yn cynnig digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r athrawon i gyd yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Yn yr enghreifftiau gorau, ceir marcio effeithiol sy'n cyfeirio at y meini prawf llwyddiant ac yn cynnig sylwadau adeiladol ar sut i wella gwaith. Serch hynny, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mewn llawer o'r dosbarthiadau mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol i annog y disgyblion i fyfyrio ar yr hyn maent wedi ei ddysgu. Er hynny, nid yw'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau asesu i olrhain cynnydd disgyblion, yn ddigon effeithiol er mwyn cynllunio ar sail anghenion pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r sesiynau cyd-addoli a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol, yn meithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch ac yn eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol. Trwy weithgareddau elusennol, caiff y disgyblion gyfle i gefnogi pobl o fewn eu cymuned leol a'r byd ehangach.

Mae partneriaethau da gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau cyswllt effeithiol gydag ystod o wasanaethau cymorth, yn cynnwys seicolegydd addysg, nyrs ac athrawon arbenigol. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth ac arweiniad ar gael i ddisgyblion, staff a rhieni yn ôl yr angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau priodol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan bob disgybl ar y gofrestr gynllun addysg unigol priodol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r disgyblion a rhieni. Mae rhaglenni ymyrraeth bellach ar waith i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion, ond mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn mesur effaith yr ymyrraeth yn ddigon effeithiol er mwyn ystyried y camau nesaf yn eu dysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n meithrin ethos gweithgar a chynhaliol sy'n annog parch a thegwch yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Mae digon o dir o amgylch yr ysgol ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau perthnasol. Mae ardaloedd mewnol ac allanol y Cyfnod Sylfaen yn cynnig amgylchedd ysgogol i hybu gweithgareddau a phrofiadau cyfoethog i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol.

Serch hynny, mae adeiladau'r ysgol yn hen ac mae rhannau ohonynt mewn cyflwr gwael. Gwelir nifer o ardaloedd o fewn y prif adeilad a thu allan sydd yn peri gofid o ran lles disgyblion, yn enwedig fframiau ffenestri'r ysgol, wal fewnol yn y prif adeilad a neuadd yr ysgol. Nid oes digon o gyfleusterau toiled yn yr adeiladau allanol ac mae hyn yn cael effaith ar amser y dysgu.

Gwelir arddangosfeydd deniadol o gwmpas yr ysgol ond, ar y cyfan, prin yw gwaith disgyblion ar y muriau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn gadarn ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol. O fewn amser byr, mae wedi cyfleu ei gweledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae nifer o weithdrefnau effeithiol wedi eu rhoi ar waith yn ddiweddar er mwyn codi safonau llythrennedd drwy'r ysgol. Mae pob aelod o'r staff yn deall yn dda eu cyfrifoldebau mewn perthynas uniongyrchol â chynlluniau strategol yr ysgol. Yn ddiweddar, pennwyd cyfrifoldebau priodol i staff fel arweinyddion medrau er mwyn sicrhau datblygiad y medrau ar draws y cwricwlwm, ond nid yw eu rôl wedi ei sefydlu'n llawn eto.

Mae'r cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n rheolaidd ar ddadansoddiadau data, perfformiad yr ysgol a gosod targedau gwelliant. Mae dealltwriaeth yr athrawon o ddata a pherfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion y teulu'n datblygu'n dda. Maent yn ymwybodol o'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach, ac mae nifer o strategaethau bellach wedi eu rhoi ar waith.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn ymwelwyr cyson â'r ysgol ac yn monitro'r addysgu a'r dysgu'n rheolaidd. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr am berfformiad yr ysgol ac mae eu dealltwriaeth yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, nid ydynt yn herio ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw perthnasol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol gan gynnwys cynllunio er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddogfen hunanarfarnu drylwyr sy'n rhoi darlun clir o fywyd yr ysgol ac yn nodi'n gywir yr agweddau lle mae angen gwelliant. Mae ganddi weithdrefnau priodol ar gyfer monitro'r dysgu ac addysgu ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at bennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth arall, yn cynnwys data perfformiad, barn llywodraethwyr, y rhieni, staff a disgyblion yr ysgol.

Mae cysylltiad agos rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn fanwl ac yn cynnwys nifer o flaenoriaethau priodol sy'n canolbwyntio ar welliannau mewn perfformiad. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy a symiau penodol o gyllid yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau. Mae'r cynllun yn sicrhau bod gan bob un o'r staff ac aelodau o'r corff llywodraethol eu rhan mewn rhoi'r strategaethau hyn ar waith. Mae hyn yn gryfder.

Ymatebwyd yn llawn i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill yn lleol i godi safonau llythrennedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol. Mae partneriaeth gref yn bodoli gyda rhieni. Mae cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd i brynu adnoddau gwerthfawr sy'n cyfoethogi'r dysgu. Cynhelir nifer o nosweithiau â'r rhieni i rannu gwybodaeth megis egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, ac i roi arweiniad a chefnogaeth iddynt ar agweddau o lythrennedd a rhifedd i'w helpu i gymryd rôl fwy gweithredol yn addysg eu plant. Mae gwefan yr ysgol, 'Eco Newyddion Ysgol Llanddarog' a'r defnydd o dechnoleg yn adnodd effeithiol i rannu gwybodaeth â rhieni'r ysgol.

Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae partneriaeth agos rhwng yr ysgol â'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne, ac mae disgyblion hynaf yr ysgol yn ymweld yn rheolaidd i ofalu am eu planhigion a'u llysiau. Ceir cysylltiadau cryf gyda'r Eglwys, ac mae'r ficer lleol a'r Esgob yn ymwelwyr cyson â'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda swyddogion menter a busnes yr awdurdod er mwyn datblygu medrau mentergarwch y disgyblion.

Mae trefniadau effeithiol wedi eu sefydlu gyda'r cylch meithrin lleol er mwyn hwyluso trosglwyddiad y plant i'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag ysgolion y dalgylch i rannu arfer dda, i gynnal hyfforddiant ar y cyd ac ar brosiectau i godi safonau llythrennedd.

Ceir cydweithio effeithiol gyda'r ysgol uwchradd i sicrhau pontio llwyddiannus i'r disgyblion a'u paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae trefniadau effeithiol i safoni a chymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac fe wneir defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn weithredol ar gyfer athrawon a chymorthyddion yr ysgol. Mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Mae'r ysgol mewn dyled ariannol ar hyn o bryd, ond mae'n cydweithio'n llwyddiannus gyda'r awdurdod i ddelio â'r diffyg yn y gyllideb drwy gynllun busnes priodol.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid yw perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ymhob maes dysgu yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru ac mae'r perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Yr un yw'r darlun ar y deilliant uwch (deilliant 6) ar wahân i berfformiad yr ysgol mewn datblygiad personol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, lle mae perfformiad yr ysgol yn y 50% neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw perfformiad yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf yn y pynciau craidd mewn cyfuniad (Cymraeg, neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) nac yn y pynciau unigol yn cymharu'n ffafriol â'r teulu, awdurdod na Chymru. Mae'r perfformiad hwn wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel uwch (Lefel 5 neu uwch) wedi amrywio. Ond yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% isaf a'r 25% i'r 50% isaf am gyfnod helaeth o amser o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 30 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer bron pob agwedd.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae pob disgybl hefyd yn nodi eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i droi ato os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd. Mae pob disgybl yn credu bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach. Mae bron pob un yn nodi bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, sy'n uwch na chanrannau cenedlaethol. Mae pob un o'r disgyblion yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni. Mae llawer yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Mae bron pob disgybl yn teimlo bod y plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Derbyniwyd 36 o ymatebion gan rieni**

Mae ymatebion y rhieni yn gadarnhaol iawn ac yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae pob rhiant yn cytuno neu yn cytuno'n gryf bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol a'u bod yn teimlo'n ddiogel yno. Mae pob rhiant yn fodlon â'r ysgol yn

gyffredinol, a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da.  Maent hefyd yn cytuno bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. Mae'r rhan fwyaf yn nodi bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol ac yn cytuno eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.  Mae pob rhiant yn teimlo'n ddiogel ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o drefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.  Mae bron pob rhiant yn teimlo bod eu plentyn yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae pob rhiant yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Dafydd Iolo Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Meinir Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.